# Y PWYLLGOR ARCHWILIO
## 6ed O IONAWR 2017

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd C.P. Higgins (Cadeirydd)**

**Y Cynghorwyr:** **J.D. James, A.G. Morgan, E.G. Thomas, G.B. Thomas, W.G. Thomas, D.E. Williams**

**Mrs. J. James – Aelod Pleidleisio Allanol**

**Hefyd yn bresennol:**

**Y Cynghorydd D.M. Jenkins – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau**

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

Mr. C. Moore – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Mr. I. Jones – Pennaeth Hamdden
Mr. P. Sexton – Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael
Mr. N. Edwards – Rheolwr Diogelu a Chomisiynu
Mr. A. Jones – Swyddog Caffael a Chontractio
Mr. L. Jones – Rheolwr Chwaraeon a Hamdden Ardal
Ms. H. Morgan – Rheolwr Datblygu Economaidd
Ms. H. Pugh – Rheolwr Archwilio a Risg
Mr. R. Stradling – Rheolwr Busnes a Phrosiectau
Mr. L. Walters – Rheolwr Dros Dro Cefn Gwlad a'r Arfordir
Mr. M. Hughes – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Yn bresennol ar gyfer eitem 7:

Mr. J. Evans – Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru)
Mr. J. Garcia – Rheolwr Archwilio (Swyddfa Archwilio Cymru)

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin (10:00am – 12:15pm)

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION ERAILL

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd H.A.L. Evans.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â lleoliad y cyfarfod, atgoffodd y Cadeirydd a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr aelodau fod treialu man cyfarfod amgen wedi cael ei drafod yn y sesiwn ddatblygu flaenorol.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17

Ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran gweithredu Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17. Rhoddai Rhan A yr adroddiad a ddarparwyd adroddiad cynnydd ar Gynllun Archwilio 2016/17 a matrics sgorio argymhellion, tra oedd Rhan B yn darparu crynodeb o adroddiadau terfynol wedi'u cwblhau 2016/17 a oedd yn ymdrin â systemau ariannol allweddol (Ebrill 2016 hyd yma).

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr eitem hon:

Cyfeiriwyd at anghysonderau o ran y lefelau sicrwydd a oedd wedi'u dyfarnu i wahanol wasanaethau a statws archwiliadau ysgolion. Cytunodd y Rheolwr Archwilio a Risg i egluro'r anghysonderau a hysbysu aelodau'r Pwyllgor yn unol â hynny.

Nodwyd bod gosodiad yr adroddiad yn gwneud y wybodaeth yn anodd ei darllen oherwydd maint y testun. Cydnabu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Rheolwr Archwilio a Risg y pryderon gan gytuno i adolygu fformat adroddiadau'r dyfodol.

Cyfeiriwyd at drafodaethau mewn cyfarfodydd blaenorol am lefelau staffio'r Uned Archwilio a Risg, a cheisiwyd sicrwydd y câi'r tîm hwn ei gynnal ar y lefel hon, yn hytrach na bod disgwyl iddo ysgwyddo rhagor o waith gyda llai o adnoddau. Cydnabu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol bryderon y Pwyllgor gan nodi bod y galwadau ar y gwasanaeth yn cael eu cydnabod yn eang ac y byddid yn parhau i'w monitro.

Mynegwyd pryder nad oedd elfen 'absenoldeb di-dâl' system hunanwasanaeth ResourceLink yn bwydo'n awtomatig i raglen swyddfa gefn system y gyflogres a bod staff wedi cael eu gordalu oherwydd hyn. Croesawyd yr adolygiad i hyn a systemau papur eraill o fewn system y gyflogres a cheisiwyd sicrwydd y byddai'r holl swyddogion perthnasol yn rhan o'r adolygiad ac y caniateid iddynt gyfrannu iddo. Rhoddodd y Rheolwr Archwilio a Risg sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai hynny'n digwydd a bod yr Uned Archwilio a Risg hefyd yn darparu cymorth i'r adolygiad fel 'ffrind beirniadol'.

Mewn ymateb i gwestiwn am hyd a lled yr adolygiad, cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio a Risg fod teithio a chynhaliaeth wedi cael eu hadolygu ar wahân.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** derbyn y Diweddariad ynghylch Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17 at ddibenion monitro.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2016/17

Ystyriodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith a oedd yn amlinellu'r eitemau arfaethedig ar gyfer agendâu cylch cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn 2016/17.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr eitem hon:

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r gwaith i wella fformat y Gofrestr Risg Gorfforaethol, cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio a Risg fod hyn yn cael ei wneud gyda her allanol gan yswirwyr yr Awdurdod, fel rhan o'i gytundeb yswiriant.

Ceisiwyd eglurhad pam mai dim ond un llythyr blynyddol a gyflwynwyd am Ddatganiad Cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Bensiwn Dyfed. Roedd y llythyr wedi'i gynnwys yn Eitem 7.2. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, er bod archwiliad ar wahân yn cael ei gynnal ar y naill gyfrif a'r llall o eiddo'r Cyngor a'r Gronfa Bensiwn, fod y rhain yn cael eu cyfuno fel un barn archwilio yn y llythyr blynyddol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** derbyn y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru.

## 5. Y NEWYDDION DIWEDDARAF YNGHYLCH CYNLLUN GWEITHREDU Y CYFLEUSTERAU ARFORDIROL

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar y cynllun gweithredu a oedd yn crynhoi'r cynnydd a wnaed mor belled gan y Gwasanaethau Hamdden i wella'i brosesau, yn dilyn y Crynodeb Archwiliad Mewnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar yr 22ain Mawrth 2016. Hysbyswyd y Pwyllgor hefyd o'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r gwaith ar Uwchgynllun Parc Gwledig Pen-bre a materion staffio.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad hwn:

Er bod y cynnydd i'w groesawu, awgrymwyd y gallai'r adroddiad gyfleu bod asedau ac arian ar goll o bosibl, a cheisiwyd sicrwydd nad oedd hynny'n wir. Gofynnwyd hefyd a oedd unrhyw ddigwyddiadau mawr a gynhaliwyd ym Mharc Gwledig Pen-bre yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn dueddol o ddioddef twyll neu golled ac a fu unrhyw dystiolaeth fod arian neu stoc wedi cael eu camddefnyddio yn y siop sgïo. Hysbysodd y Pennaeth Hamdden y Pwyllgor, er bod problemau gweithdrefnol wedi cael eu nodi, nad oedd yr ymchwiliad wedi canfod unrhyw dystiolaeth o dwyll nac o golli arian na stoc.

Gofynnwyd a oedd unrhyw faterion yn gysylltiedig â'r ymchwiliadau a oedd yn parhau y dylai'r aelodau fod yn ymwybodol ohonynt ac a oedd unrhyw achosion llys yn deillio o'r ymchwiliad. Gofynnwyd hefyd a oedd angen cyflwyno Adroddiad 151 i'r Cyngor ar yr ymchwiliadau. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd angen paratoi adroddiad o'r fath ac nad oedd unrhyw achosion troseddol na sifil un ai i ddod neu yn y llys ar hyn o bryd. Roedd ymchwiliad ar wahân gan yr Heddlu yn ymwneud ag unigolyn a fu ar un adeg yn cael ei gyflogi yn y Gwasanaeth hwn wedi bod i'r llys yn ddiweddar. Ychwanegodd fod ymchwilydd allanol wedi canfod methiannau sylweddol yn y gwasanaeth ond

fod yr Heddlu wedi hysbysu'r Awdurdod nad oedd tystiolaeth ddigonol fod gweithgarwch troseddol bwriadol wedi digwydd.

Croesawyd y cynnydd yr oedd y Gwasanaeth wedi'i wneud ond pwysleisiwyd bod angen i'r Awdurdod ddysgu gwersi wrth symud ymlaen a, gyda gweithdrefnau newydd wedi'u sefydlu, gofynnwyd a oedd y swyddogion yn hyderus y gellid atal problemau o'r fath yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Hamdden fod y swyddogion yn hyderus y byddai'r gweithdrefnau newydd a'r strwythur staffio sydd wedi'i sefydlu erbyn hyn yn sicrhau y câi problemau tebyg eu hatal. Ychwanegodd Rheolwr Dros Dro Cefn Gwlad a'r Arfordir fod y staff yn deall yn glir y model corfforaethol a'r gweithdrefnau gweithredu yr oedd angen cadw atynt. Roedd y gwasanaeth yn edrych hefyd ar ffyrdd newydd o weithio er mwyn cael gwared â chysylltiadau mewn gweithdrefnau gweithredu presennol a fyddai'n cael eu hystyried yn 'wan' gan archwilwyr. Un enghraifft o hyn fyddai cyflwyno system barcio talu ac arddangos yn lle talu wrth y fynedfa i'r parc – byddai hyn yn lleihau'r swm o arian a gâi ei drin â llaw.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach ynglŷn â chryfder y strwythur staffio newydd i ymdopi â materion fel salwch tymor hir, dywedodd y Rheolwr Dros Dro Cefn Gwlad a'r Arfordir fod y swyddogion yn hyderus fod adnoddau staffio'r adran yn ddigonol i lenwi unrhyw fylchau oherwydd salwch neu ofynion tymhorol a gâi eu rhoi ar staff y Parc. Ychwanegodd fod yr Adran Gymunedau eisoes yn darparu cymorth gweinyddol a chymorth busnes i weithgareddau'r Parc fel a phan yr oedd rhaid.

Gofynnwyd hefyd a oedd unrhyw faterion y dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn darparu cymorth i'r swyddogion i oresgyn anawsterau a gwneud cynnydd pellach. Dywedodd y Rheolwr Dros Dro Cefn Gwlad a'r Arfordir fod nifer o dasgau heb eu cyflawni yr oedd angen eu cwblhau erbyn 1af Mawrth 2017, sef cytundebau cyfreithiol a dogfennau'n ymwneud â threfniadau mynediad i'r traeth (yn cynnwys gosod cyfarpar rheoli corfforol) a chytundebau defnydd tir gydag amryw o fudiadau sy'n prydlesu tir yn y parc (e.e. clwb y rheilffordd fach, clybiau chwaraeon). Fodd bynnag, roedd angen i'r mwyafrif o'r gwaith hwn gael ei gwblhau gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, ar y cyd â'r Is-adran Hamdden. Hysbysodd y Pwyllgor hefyd fod y system archebu lle i garafán ar-lein wedi'i hailddatblygu i adlewyrchu'r lleiniau newydd a oedd wedi'u sefydlu yn y Parc.

Gofynnwyd faint o ddefnydd y byddai'r Awdurdod yn ei wneud o'r sector preifat mewn perthynas â Pharc Gwledig Pen-bre. Dywedodd y Pennaeth Hamdden mai penderfyniad i'r aelodau etholedig yn y pen draw fyddai lefel ymwneud y sector preifat. Tra oedd ef o'r farn y dylai rheolaeth y Parc aros yn nwylo'r Awdurdod Lleol, roedd achos o blaid rhannu'r dasg gan nad oedd yr Awdurdod yn gallu darparu pob gwasanaeth posibl. Er enghraifft, roedd natur dymhorol y gweithgareddau ac anwadalrwydd y tywydd yn golygu bod yr Awdurdod mewn gwell sefyllfa i reoli staff rhai gwasanaethau (e.e. arlwyo). Fodd bynnag, roedd gwasanaethau eraill a allai fod yn fwy addas i weithredwr o'r sector preifat.

Mewn ymateb i gwestiwn pa un a oedd adrannau eraill wedi dysgu o brofiad yr Awdurdod gyda Pharc Gwledig Pen-bre, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol fod y swyddogion yn hyderus fod adrannau'n cydnabod pwysigrwydd gweithdrefnau contractyddol ac ariannol. Dywedodd y Pennaeth Hamdden mai un o'r gwersi pwysicaf a ddysgwyd oedd pwysigrwydd bod â'r strwythurau staffio iawn yn eu lle i gyflenwi gwasanaeth yn effeithlon ac effeithiol.

Cyfeiriwyd at y siop sgïo a gofynnwyd a ddylid dileu'r stoc ar y fantolen neu'i gwaredu en bloc. Hysbysodd y Pennaeth Hamdden y Pwyllgor fod cymysgedd o stoc yn y siop er ei bod wedi peidio â phrynu cyfarpar newydd. Roedd peth o'r stoc yn chwech i saith mlwydd oed tra oedd cyfarpar arall yn flwydd oed. Bwriad y swyddogion oedd gwaredu'r stoc ond, yn wahanol i fusnes preifat lle byddai cyfle i fargeinio, byddai gofyn i'r Awdurdod waredu'r stoc mewn modd agored a thryloyw i sicrhau trywydd archwilio i bob eitem.

Cynigiodd y Cadeirydd fod yr aelodau'n parhau i gael diweddariadau chwarterol ar y cynnydd mewn perthynas â Chynllun Gweithredu'r Cyfleusterau Arfordirol. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

5.1. Derbyn yr adroddiad.

5.2 Bod y Pwyllgor i barhau i gael diweddariadau ar y cynllun gweithredu yn chwarterol.

## 6. Y NEWYDDION DIWEDDARAF YNGHYLCH CEFNOGI POBL

Ystyriodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf am y cynnydd o ran cynllun gweithredu'r Gwasanaeth Cefnogi Pobl. Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn cynnwys prif gasgliadau'r Adolygiad Archwilio Mewnol o Adolygiad Grant 2015/16 a chrynodeb o'r cynnydd a wnaed hyd yma gan y Tîm Cefnogi Pobl i fynd i'r afael â phob mater, gyda'r gwaith arfaethedig a'r amserlen er parhau i roi sylw i'r materion wedi'u nodi.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad hwn:

Cyfeiriwyd at drafodaethau yn y cyfarfod blaenorol ynglŷn â phenodi aelod staff ychwanegol a cheisiwyd eglurhad ynglŷn â'r sefyllfa ar hyn o bryd. Dywedodd y Rheolwr Diogelu a Chomisiynu fod yr opsiwn o benodiad ar y cyd â Sir Benfro wedi cael ei ystyried yn sgil colli un aelod o'r staff ym mis Medi 2016, ond na ddilynwyd y trywydd hwnnw. Rhagwelwyd y byddid yn dechrau recriwtio i'r swydd wag yn y dyddiau nesaf.

Mynegwyd siom fod Llywodraeth Cymru'n newid ei gofynion yn barhaus o ran cofnodi datganiadau a chanlyniadau misol, a'r effaith a gaiff hynny ar faich gwaith y Tîm Cefnogi Pobl. Awgrymwyd y dylid hysbysu'r aelodau etholedig o newidiadau o'r fath ym mholisïau neu ofynion Llywodraeth Cymru ac y dylid rhoi'r cyfle i'r Cyngor ymateb iddynt. Cydnabu'r Rheolwr Diogelu a Chomisiynu'r sylwadau a chytunodd i rannu'r pryderon gyda'r Cyfarwyddwr a chydweithwyr ar y Tîm Rheoli Adrannol. Atgoffodd y Pwyllgor hefyd fod sgil effaith sylweddol ar faich gwaith y staff pan fydd gwasanaethau'n cael eu gosod ar gontract i'r sector annibynnol, oherwydd y gwaith comisiynu a monitro contractau. Roedd hon yn broblem barhaus yr oedd y Cyfarwyddwr a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol ohoni. Cydnabu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei bod yn peri rhwystredigaeth pan fydd Llywodraeth Cymru'n gwneud newidiadau sydyn i'w gofynion neu'n gwahodd ceisiadau am symiau sylweddol o arian heb roi digon o amser i'r awdurdodau lleol i ymateb yn unol â'r gweithdrefnau cywir. Fodd bynnag,

rhybuddiodd yn erbyn awgrymiadau i lobïo neu feirniadu Llywodraeth Cymru ar hyn oherwydd gallai fod yn wrthgynhyrchiol i'r Cyngor yn y tymor hwy.

Cynigiodd y Cadeirydd fod yr aelodau'n dal i gael diweddariadau chwe-misol ar y cynnydd a wneir o ran y Cynllun Gweithredu Cefnogi Pobl. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

6.1. Derbyn yr adroddiad.

6.2 Bod y Pwyllgor i barhau i gael diweddariadau ar y cynllun gweithredu bob chwe mis.

## 7. YSTYRIED Y DOGFENNAU CANLYNOL A BARATOWYD GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU:

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr. J. Evans (Rheolwr Archwilio Perfformiad) a Mr. J. Garcia (Rheolwr Archwilio) o Swyddfa Archwilio Cymru.

### 7.1. DIWEDDARIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU I BWYLLGOR ARCHWILIO CYNGOR SIR CAERFYRDDIN – RHAGFYR 2016

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn crynhoi ei archwiliad ariannol a'i waith archwilio perfformiad yn y Cyngor, ym mis Rhagfyr 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** derbyn y diweddariad.

### 7.2. LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2015/16

Ystyriodd y Pwyllgor lythyr blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol a oedd yn crynhoi'r negeseuon allweddol yn deillio o waith y Swyddfa Archwilio, a wnaed i gyflawni cyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** derbyn Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Sir Caerfyrddin 2015/16.

### 7.3. CYNGOR SIR CAERFYRDDIN – CAMAU YN DEILLIO O ARCHWILIAD 2015/16 Y CYTUNWYD ARNYNT

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn crynhoi'r camau y cytunwyd arnynt a oedd i gael eu cyflawni gan y Cyngor a Swyddfa Archwilio Cymru wrth gwblhau cyfrifon 2016/17 a'r broses archwilio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** derbyn yr adroddiad.

### 7.4. PROTOCOL AR Y CYD AR GYFER ARDYSTIO HAWLIADAU A DATGANIADAU GRANT

Ystyriodd y Pwyllgor fersiwn wedi'i diweddaru o'r protocol ar y cyd ar gyfer ardystio hawliadau a datganiadau grant, a hynny rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Swyddfa Archwilio Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fod y protocol ar y cyd i'w dderbyn.

### 7.5. NODYN BRIFFIO AR GYNIGION AR GYFER GWELLA – GWAITH DILYNOL YN RHAGFYR 2016

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am ddiben y gwaith dilynol a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru i asesu pa gamau yr oedd y Cyngor wedi'u cymryd i weithredu'r Cynigion Gwella cyfredol, a'r cynnydd o ran hynny erbyn mis Rhagfyr 2016.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad hwn:

Gofynnwyd a ellid disgwyl diweddariad pellach ar y meysydd hyn a gofynnwyd am eglurhad hefyd sut yr oedd meysydd gwella eraill, nad oedd y diweddariad hwn yn ymdrin â nhw, yn mynd rhagddynt. Hysbysodd y Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) y Pwyllgor y byddai diweddariad pellach ar gael ym mis Mawrth 2017 ac y byddai Cynllun Gwella'r Cyngor hefyd yn darparu crynodeb o'r cynnydd. Byddai'r Cynllun Gwella'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir a'r Pwyllgor Archwilio yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Atgoffodd y Rheolwr Archwilio a Risg y Pwyllgor fod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn monitro'r meysydd gwella nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diweddariad hwn a bod ei gofnodion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Cyfeiriwyd at y cynnig gwella o dan 'Llywodraethu' a oedd yn awgrymu y dylid cyhoeddi cofrestr o benderfyniadau dirprwyedig, a gofynnwyd a oedd hyn yn gyfrifoldeb statudol. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) na allai gadarnhau a oedd yn ofyniad statudol neu beidio ond fod rhai awdurdodau lleol yn cyhoeddi'r penderfyniadau hyn a bod Swyddfa Archwilio Cymru yn annog pob awdurdod i wneud hynny. Atgoffodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y Pwyllgor fod pob cofnod o benderfyniadau dirprwyedig a wneir gan Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gyhoeddi.

Cyfeiriwyd at ymarfer da a gofynnwyd a allai'r Swyddfa Archwilio ddarparu enghreifftiau i awdurdodau lleol wrth awgrymu meysydd i'w gwella. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) fod gan Swyddfa Archwilio Cymru 'gyfnewidfa ymarfer da' ar ei gwefan lle gallai awdurdodau lleol rannu enghreifftiau o'u hymarfer da ond pwysleisiodd fod llawer o waith yn mynd rhagddo yn y cefndir gyda swyddogion o wahanol awdurdodau'n rhannu'r ymarfer gorau mewn gwahanol feysydd, a hynny'n rheolaidd. Hefyd, atgoffodd y Pwyllgor na fyddai'r ymarfer gorau yn ardal un awdurdod lleol yn addas neu'n berthnasol efallai mewn ardal arall (e.e. ardaloedd gwledig a threfol).

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** derbyn yr adroddiad.

### 7.6. ASTUDIAETH LLYWODRAETH LEOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU: TREFNIADAU AWDURDODAU LLEOL I GODI TÂL AM WASANAETHAU A CHYNHYRCHU INCWM

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar astudiaeth a gynhaliwyd yn 2015/16 i ystyried sut roedd awdurdodau lleol wedi defnyddio'u pwerau i gyflwyno a chynyddu taliadau am wasanaethau. Nododd y Pwyllgor fod yr Archwilydd Cyffredinol, ar sail canfyddiadau'r astudiaeth hon, wedi dod i'r casgliad nad oedd awdurdodau yn manteisio ar bob opsiwn i gynhyrchu incwm er eu bod wedi codi mwy o arian drwy godi tâl. Gwendidau yn eu polisïau a'r ffordd y maent yn defnyddio data a gwybodaeth yn sail i'w penderfyniadau oedd i gyfrif am hynny.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad hwn:

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pham yr oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal astudiaeth o'r fath, dywedodd y Rheolwr Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) ei bod o fewn cylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal astudiaethau o'r fath i amrywiaeth eang o bynciau. Y gwahaniaeth rhwng astudiaethau cenedlaethol a lleol y Swyddfa oedd bod astudiaethau o'r fath yn canolbwyntio ar rôl Llywodraeth Cymru hefyd. Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod wedi rhagweld yr adroddiad hwn a bod y Grŵp Swyddogion – Cynhyrchu Incwm a Chodi Tâl wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm TIC ar y mater neilltuol hwn. Bu'r Grŵp hefyd yn gweithio ar bolisi codi tâl newydd oedd i gael ei gyflwyno i'r pwyllgorau perthnasol yn y gwanwyn. Byddai adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei ystyried hefyd gan y Grŵp Swyddogion er mwyn canfod a oedd cynigion neu ddulliau gwahanol a allai gael eu mabwysiadu yn Sir Gaerfyrddin.

Mewn ymateb i gwestiwn am drafodaethau'r Grŵp Swyddogion – Cynhyrchu Incwm a Chodi Tâl, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y gellid rhannu casgliadau'r Grŵp gyda'r Pwyllgor Archwilio maes o law, ynghyd â'r polisi codi tâl newydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** nodi'r adroddiad.

## 8. COFNODION GWEITHGORAU SY'N BERTHNASOL I'R PWYLLGOR ARCHWILIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** derbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Rheoli Risg a gynhaliwyd ar y 14eg Medi 2016 a chofnodion cyfarfod y Panel Grantiau a gynhaliwyd ar y 13eg Medi 2016.

## 9. LLOFNODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD AR YR 30AIN O FEDI 2016

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelod Pleidleisio Allanol ynglŷn â'r ffordd y caiff aelodau'r Pwyllgor eu rhestru yn y cofnodion, gofynnodd y Cadeirydd am i'r cynghorwyr a'r Aelod Pleidleisio Allanol gael eu rhestru ar wahân mewn cofnodion yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn amodol ar y gwelliant a nodwyd uchod, fod cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar y 30ain Medi 2016 i'w llofnodi fel rhai cywir.

**LLOFNOD:** ______________________________ (Cadeirydd)

**DYDDIAD:** ______________________________